

Ein Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru

2023 – 2027

Fersiwn hawdd ei ddarllen

Beth yw strategaeth?




Strategaeth yw beth sydd angen ei wneud.

A sut i gyflawni hynny.



Beth yw eiriolaeth?

Mae eiriolaeth yn golygu cael cymorth gan berson arall i'ch helpu chi i fynegi eich anghenion a'ch dymuniadau a sefyll dros eich hawliau.

	<p>Yn ôl llawer o gyfreithiau, mae eiriolaeth yn bwysig.</p>
	<p>Fel y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yng Nghymru.</p>
	<p>A'r Cynllun Ardal ar gyfer Gorllewin Cymru</p>

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi y dylai pobl allu dweud:




- Mae pobl yn fy nghlywed ac yn gwrando arnaf.
- Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried.
- Rwy'n siarad dros fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gennyf rywun sy'n gallu gwneud hynny drosaf.

Mae llawer o wahanol fathau o eiriolaeth.







	<p>Hunan-eiriolaeth yw pobl yn siarad drostynt eu hunain.</p>
	<p>Eiriolaeth anffurfiol yw pan fydd ffrindiau neu deulu yn eich cefnogi.</p>
	<p>Mae eiriolaeth cymheiriaid yn gefnogaeth gan rywun sydd wedi mynd drwy'r un pethau â chi.</p>
	<p>Mae eiriolaeth dinasyddion yn golygu gweithio gydag eiriolwr gwirfoddol hyfforddedig.</p>

	<p>Mae eiriolaeth ffurfiol yn golygu pan fydd gweithwyr cymdeithasol neu staff yn siarad ar ran pobl fel rhan o'u swydd.</p>
	<p>Mae mathau eraill o eiriolaeth yn aml ar gyfer grwpiau fel pobl ag anabledd neu bobl hŷn.</p>
	<p>Mae Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn eiriolaeth gan eiriolwr hyfforddedig sy'n gweithio 1:1 ar fater.</p>
	<p>Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol yw helpu pobl i leisio eu barn am eu triniaeth iechyd meddwl.</p>
	<p>Mae Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol yn helpu pobl nad yw'r galluedd ganddynt i sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu clywed.</p>

	<p>Beth sydd wedi bod yn digwydd?</p>
	<p>Mae llawer o bobl wedi bod yn siarad am eiriolaeth yng Ngorllewin Cymru.</p>
	<p>A sut i sicrhau ei fod yn dda.</p>



	<p>Bu llawer o ymgysylltu.</p>
---	---------------------------------------

	<p>Mae hyn yn golygu siarad â phobl sy'n defnyddio eiriolaeth.</p>
	<p>Neu a allai fod ei angen.</p>
	<p>Ac eiriolwyr.</p>
	<p>A phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.</p>
	<p>Dyma oedd eu barn am yr hyn sy'n eiriolaeth dda:</p>

**Herio
anhydraddoldeb**

**Cefnogi pobl i leisio eu
barn neu i fod yn
annibynnol**

**Hyrwyddo hunan-
eiriolaeth**

**Arweinir gan y person
ac mewn modd parchus**

Digon o amser

Yn gyfrinachol

**Yn hyblyg – yn gallu
gweithio gyda
newidiadau**


**Wedi'i ariannu'n
dda**

**Mae pobl yn
gwybod beth
sydd ar gael**

Pa eiriolaeth sydd bellach yn cael ei hariannu?



Gwasanaeth	Ardal	Comisiynydd	Darperir gan
Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol	Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Eiriolaeth Gorllewin Cymru
Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol	Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Materion Iechyd Meddwl
Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol	Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro	Wedi'i gomisiynu'n rhanbarthol gan bob un o'r 3 Awdurdod Lleol	3CIPA
Eiriolaeth Anstatudol	Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro	Ddim yn berthnasol	Eiriolaeth Gorllewin Cymru


Hefyd mae gwasanaethau arbenigol fel Pobl yn Gyntaf ac Age Cymru.

	Beth nesaf?
	<p>Mae 5 prif peth yn y Strategaeth. Caiff y rhain eu galw yn flaenoriaethau.</p>
	<p>Blaenoriaeth 1 Parhau i weithio gyda'ch gilydd - a gwneud mwy ohono.</p>






	<p>Blaenoriaeth 2 Helpu pobl i wybod mwy am eiriolaeth.</p>
	<p>Blaenoriaeth 3. Sicrhau bod eiriolaeth yn hawdd ac yn deg i'w chael.</p>
	<p>Blaenoriaeth 4. Sicrhau eiriolaeth o ansawdd uchel.</p>
	<p>Blaenoriaeth 5. Cadw eiriolaeth arbenigol a gwahanol fathau o eiriolaeth i fynd.</p>
<p>1 2 3 4 5</p>	<p>Byddwn yn edrych ar y rhain 1 ar y tro.</p>
	<p>Blaenoriaeth 1 Parhau i weithio gyda'ch gilydd - a gwneud mwy ohono.</p>

	
	Byddwn yn:
	<p>Dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn cael dweud eu dweud</p>
	<p>A'u bod yn cael gwrandawriad.</p>
	<p>Edrych ar ffyrdd o sicrhau bod y cynghorau a'r bwrdd iechyd yn gweithio'n agosach.</p>
	<p>Dysgu mwy am gydweithio a defnyddio'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu.</p>
	<p>Sicrhau bod pawb yn gwneud y gwaith sydd ei angen.</p>


	
	<p>Os yw Blaenoriaeth 1 yn gweithio, bydd pobl sy'n defnyddio eiriolaeth yn dweud:</p>




	<p>Blaenoriaeth 2 Helpu pobl i wybod mwy am eiriolaeth.</p>
--	--

	
	<p>Byddwn yn:</p>
	<p>Meddwl am ffordd o sicrhau bod mwy o bobl yn gwybod am eiriolaeth.</p>
	<p>Edrych ar wahanol ffyrdd o wneud hyn, fel ar-lein.</p>
	<p>Sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi gwybodaeth mewn ffyrdd hawdd eu darllen a ffyrdd hygyrch eraill.</p>
	<p>Gwneud cysylltiadau rhwng eiriolaeth a sefydliadau sy'n cynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.</p>

	Os yw Blaenoriaeth 2 yn gweithio, bydd pobl sy'n defnyddio eiriolaeth yn dweud:
--	--



	<p>Blaenoriaeth 3. Sicrhau bod eiriolaeth yn hawdd ac yn deg i'w chael.</p>
	Byddwn yn:



Sicrhau bod y bobl sydd angen eiriolaeth fwyaf yn gallu ei chael mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, fel yn Gymraeg, wyneb yn wyneb, ar-lein ac ati.



Gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol a staff eraill i sicrhau eu bod yn cynnig eiriolaeth, a'i wneud mewn ffordd sy'n eu galluogi i egluro beth yw eiriolaeth.



Sicrhau bod pawb yn gallu cael eiriolaeth ble bynnag y maent yn byw.

Please fill in this easy read form


Your name


Address

Phone

Edrych ar y ffyrdd gorau o atgyfeirio pobl i sicrhau ei bod hi'n hawdd cael eiriolaeth.

Os yw **Blaenoriaeth 3** yn gweithio, bydd pobl sy'n defnyddio eiriolaeth yn dweud:



	<p>Blaenoriaeth 4. Sicrhau eiriolaeth o ansawdd uchel</p> <p>Byddwn yn:</p>
	<p>Comisiynu gwasanaethau eiriolaeth a all ddangos eu bod yn cael eu cynnal yn dda a'u bod wedi'u hyfforddi'n dda.</p>

	
	<p>Sicrhau bod y cytundebau comisiynu yn cynnwys ffyrdd o wirio ansawdd.</p>
	<p>Helpu gwasanaethau eiriolaeth i ddysgu a gwella.</p>
	<p>Sicrhau bod gwahanol wasanaethau yn dangos eu canlyniadau yn yr un ffordd.</p>


Beth yw comisiynu?



Mae comisiynu yn golygu bod cynghorau neu'r bwrdd iechyd yn dewis sefydliad arall i ddarparu eiriolaeth ac yn eu talu.




Beth yw canlyniadau?

Ffyrdd o ddangos yr hyn y mae gwasanaeth eiriolaeth wedi'i wneud – fel nifer y bobl a gafodd gymorth, neu a yw pobl yn hapus â'r canlyniadau.


	Os yw Blaenoriaeth 4 yn gweithio, bydd pobl sy'n defnyddio eiriolaeth yn dweud:
--	--











	<p>Blaenoriaeth 5. Cadw eiriolaeth arbenigol a gwahanol fathau o eiriolaeth i fynd Byddwn yn:</p>
	<p>Sicrhau bod cymysgedd da o wahanol fathau o eiriolaeth, ar gyfer pobl ag anghenion gwahanol.</p>

	<p>Sicrhau bod pobl yn gwybod am y gwasanaeth gorau iddyn nhw.</p>
	<p>Sicrhau bod y bobl sydd angen y mwyaf o gymorth ynghylch cyfathrebu yn cael gwasanaeth da.</p>
	<p>Datblygu a chefnogi grwpiau hunan-eiriolaeth.</p>
	<p>Edrych ar yr angen am wasanaeth eiriolaeth annibynnol arbenigol i gefnogi rhieni sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a allai fod angen help i ddeall gwybodaeth allweddol.</p>

Os yw **Blaenoriaeth 5** yn gweithio, bydd pobl sy'n defnyddio eiriolaeth yn dweud:



	<p>Sut y bydd y strategaeth yn cael ei gwirio.</p>
	<p>Bydd Grŵp Eiriolaeth Rhanbarthol newydd yn cael ei sefydlu.</p>
	<p>Byddant yn gwirio pethau sy'n cael eu gwneud.</p>
 <p>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru West Wales Regional Partnership Board</p>	<p>Ac yn adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</p>
	<p>Mae gwahanol grwpiau y byddant yn adrodd iddynt:</p>

	Cwestiynau?
	Ffôn
	Neu drwy e-bost